Eisteddfod GŴyl Dewi, Tyddewi, 2023

Cynhaliwyd Eisteddfod Flynyddol GŴyl Dewi ar 28 Chwefror yn Neuadd y Ddinas, Tyddewi. Y thema oedd 'Gwyliau' a mwynhaodd cynulleidfa fawr y cystadlaethau llwyfan a gweld y nifer fawr o geisiadau yn y cystadlaethau crefft, gosod blodau, llenyddiaeth, ffotograffiaeth a choginio - yn enwedig gan fod yr Eisteddfod wedi ei gohirio am ddwy flynedd oherwydd rheolau Covid.

Enillwyd Cadair yr Eisteddfod, a ddyfarnwyd am y cyfanswm uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau, gan Sally Martyn. Hefyd, enillodd y Darian, rhoddedig gan aelodau a chyfeillion Capel Methodistiaid Calfinaidd Caerfarchell am y nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau celf a chrefft, ac enillodd y rhan fwyaf o bwyntiau yng nghystadlaethau llenyddiaeth Saesneg.

Enillwyd y Gystadleuaeth Pin Rholio, am y nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau coginio, gan Iris James. Jane James enillodd y cwpan arian ar gyfer unawd emyn, rhoddedig gan John a Glenys James, a Rhian Olwen Peters gafodd y nifer fwyaf o bwyntiau yng nghystadlaethau Llenyddiaeth Gymraeg.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r holl gystadleuwyr, beirniaid, y cyflwynwr, cyfeilyddion, cynorthwywyr a Friends in Harmony am wneud y digwyddiad yn gymaint o lwyddiant. Cynhelir yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf ar Ddydd Iau 29 Chwefror 2024 a'r thema yw 'Cynefin'. Gellir cael rhagor o fanylion gan y cydlynydd newydd, Rebecca Thornton, ffôn 07890 629014.

Hoffai'r Pwyllgor a phawb sydd wedi bod yn ymwneud â'r Eisteddfod ar hyd y blynyddoedd estyn eu diolch diffuant i Glenys James a fu'n gydlynydd yr Eisteddfod ers yr Eisteddfod gyntaf, yn 2010, am ei gwaith a brwdfrydedd.

Hefyd, hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Francis Northall am wneud y gadair fechan, a gyflwynir i enillydd Cadair yr Eisteddfod, ac i Morgan Price o Ysgol Penrhyn Dewi am chwarae dwy unawd trwmped ardderchog yn yr Eisteddfod.